

## Rhestr wirio datblygu a rheoli contractau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau

Mae'r ddogfen hon yn cynnig golwg gyffredinol ar y prif bwyntiau y dylai Swyddogion Canlyniadau eu hystyried wrth gaffael a rheoli contractau.

A chithau'n Swyddog Canlyniadau, drwy ddilyn y prif bwyntiau hyn, byddwch yn cadw rheolaeth ar y broses, gan sicrhau bod y cwmni sydd dan gontract yn cwblhau gwaith mewn pryd yn unol â'r safon sy'n ofynnol, ac nad yw'n penderfynu nac yn amrywio dim heb ichi ddeall ac awdurdodi hynny'n llawn.

Pan fyddwch yn defnyddio contractwr i brosesu data personol, mae gofynion arbennig yn gymwys o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r rhain wedi'u hamlygu isod, ond dylech sicrhau eich bod yn cysylltu â Swyddog Diogelu Data/Gwybodaeth eich cyngor.

### Caffael

- Gofynnwch i'ch awdurdod lleol am gyngor ynglŷn â'r gweithdrefnau caffael a ddilyni'r ganddo.
- Gofynnwch am dri dyfynbris o leiaf. Neu, a oes 'na restr safonol o gontractwyr a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol? Os oes, edrychwch a oes contractwr a fyddai'n gallu cyflawni gofynion y fanyleb (gweler isod).
- Mae rheolau penodol yn gymwys pan fyddwch yn defnyddio 'prosesydd' i weithredu ar eich rhan er mwyn prosesu data personol. Er enghraifft, os byddwch yn anfon data at gontractwr i argraffu deunyddiau etholiadol fel pecynau pleidleisio drwy'r post neu bapurau pleidleisio, rydych yn defnyddio prosesydd. Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE yn nodi mai dim ond prosesydd a all roi '**sicrwydd digonol**' y caiff gofynion y rheoliad eu bodloni y dylech ei benodi. Felly, rhaid i chi sicrhau bod ystyriaethau diogelu data yn rhan hanfodol o'ch proses gaffael. Ceir rhagor o wybodaeth am effaith y ddeddfwriaeth diogelu data wrth lunio contractau gyda phroseswyr data ar ddiwedd yr adnodd hwn.

### Y fanyleb

Er mwyn sicrhau trefn gaffael effeithiol, mae'n hollbwysig cael manyleb fanwl sy'n rhestru'r gofynion. Wrth lunio manyleb, dylid rhoi sylw i'r canlynol, fan leiaf:

- Dylech gynnwys disgrifiad manwl o'r hyn yr ydych am iddyn nhw'i gyflawni.

- Dylech roi cyfarwyddiadau clir ynglŷn â'r gofynion a'r dyletswyddau statudol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r gwaith neu'r gwasanaethau penodol a gyflawnir, er enghraifft:
  - cyfarwyddiadau ynglŷn ag argraffu unrhyw gynnwys a gofynion ynglŷn â sut y dylid ei osod
  - amserlenni statudol
- Dylech gynnwys gwybodaeth berthnasol am unrhyw ddata a ddarperir, gan gynnwys prosesau ar gyfer anfon a derbyn, a rheoli data'n ddiogel.
- Dylech ei rhoi i bawb a wahoddir i dendro ar gyfer y gwaith a rhaid i'r contractwr llwyddiannus allu cyflawni holl ofynion y fanyleb.
- Dylech ei gwneud yn glir y dylai'r contractwr llwyddiannus fod yn cynhyrchu gwaith neu'n darparu gwasanaethau'n unol â'r fanyleb ac na ddylid newid dim yn ystod cyfnod cyflawni'r contract heb gael caniatâd o flaen llaw.

### Eich penderfyniad

Wrth ichi benderfynu, rhaid ichi ystyried y canlynol:

- A ydyn nhw wedi rhoi sylw i bob pwynt yn eich manyleb?
- A ydych chi'n fodlon y byddan nhw'n gallu cyflawni gofynion y fanyleb?
- Ai nhw sy'n cynnig y gwerth gorau am arian?
- Os ydynt yn prosesu data personol ar eich rhan, a allant roi '**sicrwydd digonol**' y caiff gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol eu bodloni?

Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn dogfennu eich proses gwneud penderfyniadau.

### Rheoli contract

Mae gennych chi a'r cyflenwr ddyletswyddau y mae'n rhaid eu hadlewyrchu yn y contract (gweler y gofynion ychwanegol isod pan fydd y contractwr yn prosesu data personol ar eich rhan):

#### Eich dyletswyddau chi

- Darparu manyleb glir sy'n rhestru'r gofynion gan gynnwys ansawdd, niferoedd, amserlenni cwblhau, ac ati.
- Enwebu rheolwr contract i fod yn brif bwynt cyswllt drwy gydol y broses.
- Cael geiradaon ffurfiol ar ôl dewis cyflenwr.
- Sicrhau, drwy drefn briodol, fod datganiadau'r cyflenwr ynglŷn â materion megis gwarchodaeth, iechyd a diogelwch a gweithdrefnau ar gyfer trin data'n ddiogel, yn ddatganiadau dilys.
- Ymrwymo i ddarparu data cywir mewn pryd ac ar y fformat y cytunwyd arno, gan gytuno ar weithdrefn ar gyfer prawf ddarllen.
- Cytuno gyda'r cyflenwr ar broses ar gyfer amrywio'r contract, e.e. os bydd unrhyw newid funud olaf, er enghraifft bod angen gwneud rhagor o waith neu newid yr amserlen cwblhau.
- Cael datganiad gan y cyflenwr sy'n cadarnhau a fydd yn defnyddio isgcontractwyr neu beidio ac, os bydd, ceisio sicrwydd y bydd yr is-

contractwr yn gallu cyflawni'r gwaith a bod prosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith.

- Cytuno ar broses i gywiro unrhyw wallau.

#### Dyletswyddau'r cyflenwr

- Ymateb yn glir i'r fanyleb drwy ddarparu atodlen brisio ddiamwys.
- Sicrhau bod Rheolwr y Prosiect yn cysylltu â'ch rheolwr contract.
- Ymrwmo i gwblhau gwaith y contract mewn pryd ac yn unol â'r fanyleb y cytunwyd arni.
- Cyflawni gofynion deddfwriaethol yn ôl eich cyfarwyddyd.
- Paratoi cynlluniau wrth gefn i sicrhau y gall y busnes barhau os na fydd adnoddau penodol ar gael (y gweithlu) neu os bydd systemau'n methu (peiriannau, argraffyddion digidol, cludiant, llety ac ati), ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hyn.
- Rhoi sicrwydd eto bod ganddyn nhw ddigon o adnoddau i gwblhau'r contract.
- Eich bodloni y byddan nhw'n eich indemnio rhag unrhyw gost, hawliad, cam, archiad ac achos cyfreithiol sy'n codi yn sgil unrhyw weithred, camgymeriad neu anwaith (bwriadol, esgeulus neu fel arall).
- Eich bodloni bod yswiriant digonol ar waith ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig ag atebolrwydd cyhoeddus ac esgeulustod proffesiynol.
- Eich bodloni y byddan nhw'n cadw at holl ofynion y ddeddfwriaeth diogelu data
- Cynhyrchu proflenni/dogfennau prawf parod i'w hargraffu.
- Cytuno ar broses i gywiro gwallau.
- Caniatáu i chi a/neu gynrychiolydd a benodwyd gennych sicrhau ansawdd y cynnyrch ar unrhyw adeg resymol heb roi rhybudd o flaen llaw. Dylai hyn gynnwys archwilio unrhyw gofnodion sy'n berthnasol i'r contract.
- Caniatáu i gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig arsylwi'r broses (fel sy'n ofynnol o dan y ddeddf).

Rhaid i'r contract gynnwys y canlynol hefyd:

#### Amrywio'r Contract

- Rhaid i unrhyw amrywiad gael ei gofnodi'n ysgrifenedig a rhaid i'r ddau barti gytuno arno.
- Dylid gallu addasu'r contract i ymateb i weithgareddau annisgwyl.

#### Aseinio ac is-gontractio

- Ni chaniateir aseinio nac is-gontractio'r contract yn ei gyfanrwydd na rhan ohono heb eich caniatâd ysgrifenedig chi o flaen llaw.
- Rhaid i unrhyw isgontractwr/wyr fod ar gael ichi gysylltu â nhw.
- Cewch aseinio a throsglwyddo hawliau/atebolrwydd i gorff arall os bydd y contract cyfan neu unrhyw ran ohono'n methu er mwyn sicrhau eich bod yn gallu cyflawni'ch cyfrifoldebau cyfreithiol.

#### Talu

- Anfonebu gan y cyflenwr yn unol â'r tendr/dyfnbris.

- Yr anfoneb i gynnwys yr holl wybodaeth gefndir ynglŷn â'r costau a godir.
- Rhaid ichi setlo o fewn cyfnod y cytunwyd arno gyda'r cyflenwr.

#### Terfynu'r contract os bydd y cyflenwr yn torri'r amodau'n sylfaenol

- Rhaid i'r contract ganiatáu ichi derfynu'r contract o dan yr amgylchiadau a ganlyn:
  - gweithred neu anwaith esgeulus
  - gweithred sy'n golygu na allwch chi gyflawni'ch dyletswyddau statudol
  - ansolfedd neu ddiddymu'r cwmni'n effeithio ar y contract

#### Rhyddid Gwybodaeth

- Er nad yw Swyddogion Canlyniadau ynghlwm wrth ofynion y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, er mwyn bod yn dryloyw, dylid ystyried cytuno i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth os daw cais o dan y ddeddf honno.

#### Diogelu data a storio gwybodaeth yn ddiogel

- Rhaid ichi a'r cyflenwr beidio â datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol ynglŷn â thelerau'r contract.
- Rhaid i'r cyflenwr ac unrhyw isgcontractwyr sicrhau bod pob gwybodaeth cofrestru etholiadol a'r holl ddeunyddiau cysylltiedig yn cael eu dinistrio ar yr adeg y cytunwyd arni.
- Rhaid i'r cyflenwr sicrhau bod pob papur pleidleisio byw'n cael ei gadw'n ddiogel a'i fod wedi'i warchod.
- Rhaid i'r cyflenwr ac unrhyw isgcontractwyr sicrhau bod yr holl ddata sy'n gysylltiedig â'r papurau pleidleisio yn cael eu dinistrio'n ddiogel ar adeg benodol.

### **Ystyriaethau penodol pan fydd y contract yn golygu bod y contractwr yn prosesu data personol**

Yn ogystal â'r rhwymedigaethau a nodir uchod, mae gofynion penodol o dan ddeddfwriaeth diogelu data pan fyddwch yn defnyddio contractwr (h.y. 'prosesydd') i brosesu data personol ar eich rhan. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, pan fyddwch yn anfon data at gcontractwr ar gyfer deunyddiau etholiadol fel pecynnau pleidleisio drwy'r post neu bapurau pleidleisio.

Pan fyddwch yn defnyddio prosesydd, bydd Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE yn gosod **rhwymedigaeth gyfreithiol** arnoch i ffurfioli'r gydbertynas weithio mewn cytundeb ysgrifenedig/contract sy'n nodi'r canlynol:

- y pwnc dan sylw, natur a diben y prosesu;
- rhwymedigaethau a hawliau'r rheolydd data;
- hyd y prosesu;
- y mathau o ddata personol a chategoriâu o bynciau data

Hefyd, mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn nodi bod yn rhaid i'r contract roi rhwymedigaethau penodol ar y prosesydd, yn cynnwys y canlynol:

- dylai gydymffurfio â'ch cyfarwyddiadau
- ei fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd
- dylai gadw data personol yn ddiogel a'ch hysbysu am unrhyw achos o beidio â chydymffurfio
- dylai gadw cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgareddau prosesu y mae'n eu cyflawni ar eich rhan
- dim ond gyda'ch cydsyniad y dylai ddefnyddio isgontractwr
- dylai ufuddhau i archwiliadau ac arolygiadau a rhoi pa wybodaeth bynnag fydd ei hangen arnoch i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
- dylai ddileu neu ddychwelyd yr holl ddata personol i chi yn unol â'ch cais ar ddiwedd y contract

Fel Swyddog Canlyniadau, chi yw'r rheolydd data a chi sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y caiff data personol eu prosesu yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Fodd bynnag, os bydd prosesydd yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau, neu'n mynd yn groes i'ch cyfarwyddiadau, gall hefyd orfod talu iawndal neu gall gael dirwy neu gosb neu fesurau unioni eraill. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi darparu canllawiau ar gontractau a rhwymedigaethau rhwng rheolyddion a phroseswyr y dylech eu hystyried o ran eich contractau â phroseswyr data.

Mae ein hadnodd ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE ar gael ar ein gwefan.

#### Gofynion o ran cyfrinachedd

- Rhaid ichi roi copi o'r gofynion o ran cyfrinachedd i gyflenwyr.